Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Ebrill 3, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mae Cymwysterau Cymru wedi rhannu'r wybodaeth o ran sut fydd graddau yn cael eu cyfrifo i ddisgyblion ar gyfer Arholiadau TGAU, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Haf 2020. Byddwn yn derbyn arweiniad pellach ar gymwysterau galwedigaethol a thechnegol gan Gymwysterau Cymru cyn gynted â bod modd. Y nod yw trin disgyblion mor deg â phosibl yr haf hwn.

Sut caiff graddau eu cyfrifo?

Bydd gofyn i'r ysgol anfon dau ddarn o wybodaeth am bob un o'ch cymwysterau at y bwrdd arholi, yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n ei wybod am eich gwaith a'ch perfformiad:

• y radd maen nhw'n credu roeddech chi fwyaf tebygol o'i chael petai addysgu, dysgu ac arholiadau wedi digwydd yn ôl y cynllun

• trefn dysgwyr, yn ôl perfformiad, o fewn y graddau hynny

Byddwn fel ysgol yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth e.e. eich gwaith dosbarth a'ch gwaith cartref; eich canlyniadau mewn aseiniadau ac unrhyw ffug arholiadau; unrhyw asesiadau diarholiad; a'ch cynnydd cyffredinol. Bydd y wybodaeth hon yn galluogi'r bwrdd arholi gasglu a chymharu graddau ar hyd a lled canolfannau.

Mae Cymwysterau Cymru eisiau sicrhau bod canlyniadau'n deg a, hyd eithaf ei gallu, nad yw dysgwyr o dan fantais neu anfantais, oherwydd bod eu canolfannau'n fwy hael neu'n fwy llym na rhai eraill wrth wneud y penderfyniadau hynny. Mae hynny'n golygu y gallai eich gradd derfynol fod yn wahanol i'r un mae eich ysgol yn anfon at y bwrdd arholi.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Dim byd. Bydd eich athrawon yn adolygu'r holl waith rydych chi wedi ei wneud hyd yn hyn. Ni fydd unrhyw waith newydd a gafodd ei gyflawni ar ôl i'r ysgol gau ddylanwadu ar ganlyniadau haf eleni. Efallai y bydd athrawon yn parhau i osod gwaith er mwyn sicrhau bod yr holl addysgu a dysgu wedi'i gwblhau, a helpu i'ch paratoi chi ar gyfer blwyddyn nesaf.

Mae'r data (graddau a threfn restrol) a gaiff ei ddarparu'n gyfrinachol ac ni ellir ei rannu gyda chi fel dysgwyr, eich rheini neu ofalwyr. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â gofyn i'ch athrawon, nac unrhyw un arall yn eich ysgol, i ddweud wrthoch chi pa

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

raddau byddan nhw'n eu hanfon at y byrddau arholi na ble maen nhw wedi eich gosod chi yn nhrefn y dysgwyr. Pwrpas hyn yw helpu sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan ysgolion a cholegau mor deg â phosibl.

Pryd byddaf yn derbyn fy nghanlyniadau?

Mae Cymwysterau Cymru'n gweithio'n galed i sicrhau eich bod chi'n cael eich canlyniadau cyn gynted â phosibl – a dim hwyrach na'r dyddiadau a gyhoeddwyd, sef 13 Awst (UG a Safon Uwch) a 20 Awst (TGAU).

A allaf sefyll fy arholiadau ryw dro arall?

Mae arholiadau TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith eisoes ar gael bob mis Tachwedd. Gallwch chi ymgeisio am yr arholiadau hyn. Bydd arholiadau eraill ar gael, fel arfer, yn ystod haf 2021.

Sut i gael y wybodaeth ddiweddaraf?

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi set o Gwestiynau Cyffredin a allai fod yn ddefnyddiol i chi a'ch rhieni neu ofalwyr. Rwyf wedi atodi copi at eich sylw.

Mae diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru (www.cymwysteraucymru.org) a'u cyfryngau cymdeithasol @cymwysterau_cym ar Twitter a @qualswalescymcymru ar Facebook.

Rydym yn llwyr ymwybodol bod canslo arholiadau'r haf 2020 wedi eich gwneud fel dysgwyr i deimlo'n ansicr ac yn siomedig. Gwn hefyd eich bod wedi bod aros yn eiddgar am newyddion a gobeithiwn fod diweddariad heddiw yn rhoi eglurhad i chi. Fel ysgol, byddwn yn sicrhau bod pob un ohonoch yn cael eich trin yn deg.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch amynedd.

Yn gywir,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

3 April, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

Qualifications Wales have shared the following information regarding how grades will be calculated for Summer 2020 GCSE, AS, A-level and Skills Challenge Certificate learners. We will receive further guidance on vocational and technical qualifications from Qualifications Wales as soon as possible. The aim is to ensure that pupils are treated as fairly as possible this summer.

How will grades be calculated?

The school will be asked to send the exam boards two pieces of information for each of your qualifications, based on what they know about your work and performance:

•the grade they believe you were most likely to get if teaching, learning and exams had happened as planned

•the order of learners, by performance, within those grades.

The school will consider a range of evidence like your class and homework; your results in assignments and any mock exams; any non-exam assessment you might have done; and your general progress during your course.

This information will allow the exam board to gather and compare grades across centres. Together, Qualifications Wales want to make sure that results are fair and that, as far as possible, learners are not advantaged or disadvantaged because their centres are more generous or harsh than others when making those judgements. That means the final grade you get could be different from the one your school sends to the exam board.

What do I need to do?

Nothing. Your teachers will review all the work you have done so far, any new work set after the school closed will not influence this summer's results. Teachers may continue to set work to ensure that all teaching and learning has been completed and help prepare you for next year.

The data (grades and rank order) that will be provided is confidential and cannot be shared with you as learners, your parents or carers. Please don't ask your teachers, or anyone else at school, to tell you the grades they will be sending to the exam

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

board or where they have placed you in the order of learners. This is to help ensure the information submitted by schools and colleges is as fair as possible.

When will I get my results?

Qualifications Wales are working hard to make sure you get results as soon as possible – and no later than the published dates of 13 August (AS and A level) and 20 August (GCSE). We will confirm dates as soon as we can.

Can I take my exams another time?

There are already exams available in GCSE English Language, Mathematics, Mathematics-Numeracy and Welsh Language in November each year. You can enter for these exams in November 2020. Other exams will be available, as usual, in summer 2021.

Keep informed

Qualifications Wales have published a set of FAQs that you and your parents or carers might find useful. I have attached a copy for your attention.

There are also regular updates on the website (www.qualificationswales.org) and social media (@quals_wales on twitter and @qualswalescymcymru on facebook) that you might want to follow.

We fully understand that the announcement to cancel exams this summer has been unsettling for you as learners. We are aware that you have been eagerly awaiting news and we hope that today's update has provided clarification. As a school, we will ensure that every pupil will be treated fairly.

Thank you for your co-operation and patience.

Yours sincerely

Rhian Morgan
Acting Headteacher